# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 5

RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF

*Troseddau sy'n gysylltiedig â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff*

### 95 Y drosedd o roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn

(1) Mae'n drosedd i berson yng Nghymru—

(a) rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed, neu

(b) gwneud trefniadau i roi, yng Nghymru, dwll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sydd o dan 18 oed.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(3) Pan fo person ("y cyhuddedig") wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd ymddygiad y cyhuddedig ei hun (ac eithrio yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43) (helpwyr ac anogwyr)) mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig ddangos—

(a) bod y cyhuddedig yn credu bod y person y rhoddwyd y twll y cyfeirir ato yn is-adran (1)(a) iddo, neu y gwnaed y trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b) mewn cysylltiad ag ef, yn 18 oed neu'n hŷn, a

(b) naill ai—

(i) bod y cyhuddedig wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran y person hwnnw, neu

(ii) na allai neb fod wedi amau'n rhesymol o olwg y person hwnnw fod y person o dan 18 oed.

(4) At ddibenion is-adran (3)(b)(i), mae'r cyhuddedig (yn achos trosedd o dan is-adran (1)(a)) i gael ei drin fel pe bai wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran person arall—

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(a) os gofynnodd y cyhuddedig i'r person hwnnw am dystiolaeth o oedran y person hwnnw, a

(b) pe bai'r dystiolaeth wedi argyhoeddi person rhesymol.

(5) Pan fo person wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd gweithred neu ddiffyg person arall, neu yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43) (helpwyr ac anogwyr), mae'n amddiffyniad dangos i'r person gymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.

**96 Beth yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff?**

(1) At ddibenion adran 95, rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yw tyllu'r corff mewn rhan bersonol a restrir yn is-adran (2), pan fo'n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol.

(2) Y rhannau personol o'r corff yw—

(a) yr anws;

(b) y fron (gan gynnwys y deth a'r areola);

(c) y ffolen;

(d) rhych y pen ôl;

(e) y pidyn (gan gynnwys y blaengroen);

(f) y perinëwm;

(g) y mons pubis;

(h) y ceillgwd;

(i) y tafod;

(j) y fwlfa.

(3) Yn yr adran hon, mae i "tyllu'r corff" yr ystyr a roddir yn adran 94.

(4) At ddibenion yr adran hon, mae triniaeth feddygol yn driniaeth a gyflawnir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestredig neu fydwraig gofrestredig, at ddibenion y canlynol, neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) diagnosio, atal, monitro, trin neu liniaru clefyd, afiechyd, anabledd, neu annormaledd corfforol neu feddyliol arall, neu

(b) atal cenhedlu.